Ai am fy meiau i

Caneuon Ffydd: Rhif 482

Ai am fy meiau i
dioddefodd Iesu mawr
pan ddaeth yng ngrym ei gariad ef
o entrych nef i lawr?

Cyflawnai'r gyfraith bur,
cyfiawnder gafodd Iawn,
a'r ddyled fawr, er cymaint oedd,
a dalodd ef yn llawn.

Dioddefodd angau loes
yn ufudd ar y bryn,
a'i waed a ylch y galon ddu
yn lân fel eira gwyn.

Bu'n angau i'n hangau ni
wrth farw ar y pren,
a thrwy ei waed y dygir llu,
drwy angau, i'r nefoedd wen.

Pan grymodd ef ei ben
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
i bur drigfannau'r ne'.

Gorchfygodd uffern ddu,
gwnaeth ben y sarff yn friw;
o'r carchar caeth y dygir llu,
drwy ras, i deulu Duw.

JOHN ELIAS, 1774–1841

MYFYRDOD

Rhyfeddod sydd wrth wraidd y cwestiwn yn yr emyn hwn – un o rai enwocaf John Elias o Fôn. Defnyddio cwestiwn ei forwyn Mary a wnaeth John Elias. 'Ai am fy meiau i y dioddefodd Iesu mawr?'

holodd un bore ar ôl i'w meistr fod yn cadw dyletswydd deuluol a darllen o Eseia 53. Mae yna enghraifft yma o sut y gall yr Ysgrythur siarad â chalon yr unigolyn a'i chymhwyso'i hun i'n sefyllfa ni. 'Ond fe archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd', meddai'r bumed adnod o'r bennod. Wyddom ni ddim beth oedd yn pwyso ar feddwl Mary, beth oedd y 'beiau' oedd yn ei chyhuddo wrthi ei hun, ond mae yna draddodiad bod gan deulu John Elias forwyn a arferai fod yn un o'r 'copper ladies' yng ngwaith Mynydd Paris ac yn un llac iawn ei moesau, ond a drodd yn rhyfeddol at Grist ac a olchwyd yn lân 'fel eira gwyn'. Os mai hon oedd Mary, yna roedd hi eisoes wedi cael ateb i'w chwestiwn, ond yn parhau i synnu bod y fath waredigaeth yn bosibl.

Darllen o'r bennod fawr hon (Eseia 53) sydd yn llawn o Newyddion Da'r Testament Newydd oedd yr eunuch hwnnw oedd ar ei ffordd yn ôl at ei frenhines yn Ethiopia yn Actau 8 pan ddanfonwyd Philip gan yr Ysbryd Glân at ei gerbyd gan esbonio'i benbleth iddo a'i arwain at wrthrych y bennod, Iesu Grist, 'Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd' (Ioan 1:29). Bedyddiwyd yr eunuch o Ethiopia yn y fan a'r lle pan ddaeth i gredu'r Newyddion Da am Iesu Grist, a chyfeiriad at hynny a arferai fod yn y trydydd pennill: 'a ylch yr Ethiop du', ond bellach a aeth yn 'galon ddu' yn *Caneuon Ffydd*.

Datguddir calon fawr Duw ei hun tuag atom yn yr emyn, ond allwn ni ddim profi 'grym ei gariad ef' nes down i sylweddoli, fel Mary, ein bod, nid yn unig wedi torri 'cyfraith bur' Duw, ond hefyd ei galon. Does dim rhaid inni ofni agor yr hyn sydd yn ein calonnau ni i'r galon ddwyfol oherwydd 'agorodd (Iesu) ffordd, pan rwygai'r llen, i bur drigfannau'r ne'. Daeth i'r byd i'r union bwrpas hwnnw, i faddau beiau ac i'n dwyn ninnau 'drwy ras, i deulu Duw'.

GWEDDI

O Dad, oes yna unrhyw beth cyn hardded â'r gras sydd yn maddau beiau? Gofynnaf innau fy nghwestiwn i ti, ac ni wn i am ddim arall all dalu'r ddyled fawr, er cymaint oedd, a gwneud hynny yn llawn. Helpa fi i'w dderbyn – am nad oes ateb arall i bechod. Yn enw Iesu yr wy'n gofyn. Amen.